# DAVIES, JOSEPH EDWARD (1876 - 1958), cyfreithiwr rhyngwladol

**Enw:** Joseph Edward Davies
**Dyddiad geni:** 1876
**Dyddiad marw:** 1958
**Priod:** Marjorie Davies
**Priod:** Emlen Davies (née Knight)
**Plentyn:** Emlen Davies
**Plentyn:** Rahel Davies
**Plentyn:** Eleanor Davies
**Rhiant:** Rachel Davies (née Paynter)
**Rhiant:** Edward Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfreithiwr rhyngwladol
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd 29 Tachwedd 1876 yn Watertown, Virginia, T.U.A., mab Edward Davies, saer, a Rachel ei wraig, efengyles a bardd a adweinid fel ' Rahel o Fôn '. Treuliodd beth amser yn blentyn yn sir Fôn, ac yn ystod ei ddyddiau coleg deuai bob haf i Gymru a threuliai beth amser gydag Evan Rowland Jones, conswl dros T.U.A. yng Nghaerdydd, a brodor o Dregaron, fel ei dadcu. Y cysylltiad â Tregaron a barodd iddo yn ddiweddarach roi enw'r dref honno ar ei d yn Washington y dymunai weld ei ddefnyddio yn ysgol i fyfyrwyr graddedig mewn astudiaethau rhyngwladol.

Galwyd ef i'r Bar yn Wisconsin yn 1901 a datblygodd yn gyfreithiwr rhyngwladol o fri. Ef oedd un o w r deheulaw Woodrow Wilson, a safodd etholiad aflwyddiannus i'r Gyngres yn 1918. Ymwrthododd â gwasanaeth cyhoeddus ar ôl hyn, a chanolbwyntio ar ei yrfa yn y gyfraith. Penodwyd ef yn llysgennad i Rwsia yn 1936 ac i wlad Belg yn 1938, i Rwsia yr eildro yn 1943 ac i Brydain yn 1945 ychydig cyn mynychu Cynhadledd Potsdam.

Derbyniodd tua naw gradd prifysgol, gan gynnwys LL.D. Prifysgol Cymru (1946), ac etholwyd ef yn islywydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion. Dyfarnwyd iddo Medal of Merit yn 1946, yr anrhydedd uchaf y gellid ei roi i ddinesydd gan lywodraeth T.U.A.; a chafodd anrhydeddau cyffelyb gan lywodraethau deg gwlad arall. Ceir ysgrifau ganddo mewn amryw gylchgronau (1913-47), ac adroddiadau ar ddiwydiant, treth corfforaethau ac agweddau ar y gyfraith. Daeth yn adnabyddus i gylch ehangach wedi cyhoeddi ei lyfr dadleuol, *Mission to Moscow* (1941).

Priododd (1), 10 Medi 1902, Emlen Knight, a bu iddynt dair merch: Eleanor, Rahel ac Emlen. Yr oedd yn r cyfoethog iawn ei hun pan briododd (2), yn 1935, Mrs. Marjorie Post a etifeddodd 20 miliwn doler gan ei thad. Bu farw 9 Mai 1958 a chladdwyd ef yng nghadeirlan Washington.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


*Who's who in America?*, 1951-60

*Western Mail*, 10 Mai 1958


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Joseph E. Davies

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 35365931

Wikidata: Q946912


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu